

Physician Associate

Pwy sy'n Gymdeithion Meddygol?

Mae Cymdeithion Meddygol (PAs) yn dal i fod yn rôl newydd ond sy'n tyfu yn y GIG. Maen nhw'n hyfforddi i broffesiwn meddygol cyffredinol ac yn gweithio mewn lleoliadau ysbyty a chymunedol.

Beth mae Cymdeithion Meddygol yn ei wneud?

Yn ymarferol, mae Cymdeithion Meddygol yn cymryd hanesion meddygol, yn cyflawni archwiliadau corfforol, rhoi diagnosis a rheoli cyflyrau iechyd. Mae amrywiaeth eang o rolau o Feddygaeth Fewnol Aciwt i Ofal Sylfaenol a Iechyd Meddwl, gan ddarparu rhywbeth i bawb.

Pam astudio yng Nghymru?

Mae bwrsariaeth GIG Cymru ar gael i bob myfyriwr Cydymaith Meddygol sy'n astudio yng Nghymru i gynorthwyo gyda ffioedd cwrs, treuliau byw a chostau teithio.

Yn aml yn gweithio gyda nifer cynyddol o Gymdeithion Meddygol cymwys yng Nghymru, mae amrywiaeth enfawr o gyfleoedd lleoliad ar gael i'r myfyrwyr Cydymaith Meddygol trwy gydol y rhaglen. Mae hyn yn rhoi'r gallu i fyfyrwyr ennill profiad gofal iechyd hanfodol go iawn.

Sut i ddod yn Gydymaith Meddygol?

Cymwysterau sydd eu hangen i fod yn Gydymaith Meddygol:

Gradd israddedig berthnasol mewn gwyddor bywyd a gwybodaeth am ofal iechyd.

MSc mewn Astudiaethau Cydymaith Meddygol - mae'r cymhwyster ôl-raddedig hwn ar gael i'w astudio ym Mhrifysgol Abertawe a Bangor.

Eisiau gwybod rhagor am Gymdeithion Meddygol?

Am wybodaeth am y rhaglenni ôl-raddedig:

- www.swansea.ac.uk
- www.bangor.ac.uk

Neu i gael gwybod rhagor am Gymdeithion Meddygol ewch i wefan Cyfadran y Cymdeithion Meddygol : www.fparcp.co.uk

